# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Hysbysu'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd*

## 7 Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd

(1) Pan fydd gweithredwr sefydliad busnes bwyd wedi cael hysbysiad am sgôr hylendid bwyd y sefydliad, rhaid i'r gweithredwr arddangos y sticer sgôr hylendid bwyd a ddarparir.

(2) Ni fydd y gofyniad hwn yn gymwys—

(a) hyd nes y bydd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau ar gyfer apêl wedi dirwyn i ben, neu

(b) os yw apêl wedi ei gwneud, hyd nes y bydd yr apêl wedi ei phenderfynu a bod y gweithredwr wedi cael hysbysiad am y canlyniad.

(3) Rhaid i'r sticer gael ei arddangos yn y man a'r modd a ragnodir.

(4) Caiff rheoliadau sy'n rhagnodi'r man a'r modd priodol ar gyfer arddangos sticer wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o sefydliad (gan gynnwys darpariaeth ynghylch arddangos sticer mewn mwy nag un man).

(5) Bydd y sticer yn peidio â bod yn ddilys pan fydd sgôr hylendid bwyd y sefydliad yn peidio â bod yn ddilys.

(6) Os bydd sticer sefydliad yn peidio â bod yn ddilys, rhaid i'r gweithredwr ei dynnu o'r man lle y mae'n cael ei arddangos a'i ddistrywio (oni chaiff ei gyfarwyddo i beidio â'i ddistrywio gan swyddog awdurdodedig).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 7(1)(2)(5)(6) mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(e)**

**I3** A. 7(3)(4) mewn grym ar 28.10.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 2(d)**

**I4** A. 7(3)(4) mewn grym ar 28.11.2013 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(e)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 7.